



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2018 Rhif 1022 (Cy. 213) (C. 78)

2018 No. 1022 (W. 213) (C. 78)

**CYNLLUNIO GWLAD A
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY
PLANNING, WALES**

Gorchymyn Deddf Cynllunio
(Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 5 a
Darpariaethau Trosiannol) 2018

The Planning (Wales) Act 2015
(Commencement No. 5 and
Transitional Provisions) Order 2018

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Dyma'r pumed gorchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ("Deddf 2015").

This is the fifth commencement order made by the Welsh Ministers under the Planning (Wales) Act 2015 ("the 2015 Act").

Mae erthygl 2 yn dwyn y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2015 i rym, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym—

Article 2 brings the following provisions of the 2015 Act into force, so far as they are not already in force—

- adran 52 (datganiad gan berchennog i ddod â diwedd i ddefnyddio tir drwy hawl);
- adran 53 (eithrio o'r hawl i wneud cais am gofrestru); ac
- Atodlen 6 (meysydd tref a phentref: Atodlen 1B newydd i Ddeddf Tiroedd Comin 2006).

- section 52 (statement by owner to end use of land as of right);
- section 53 (exclusion of right to apply for registration); and
- Schedule 6 (town and village greens: new Schedule 1B to the Commons Act 2006).

Mae erthygl 3 yn gwneud darpariaethau trosiannol mewn perthynas â cheisiadau i gofrestru tir yn faes tref neu bentref o dan adran 15(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006.

Article 3 makes transitional provisions in relation to applications to register land as a town or village green under section 15(1) of the Commons Act 2006.

**NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN
CYNHARACH**

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2015 wedi eu dwyn i rym gan Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

**NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT
ORDERS**

(This note is not part of the Order)

The following provisions of the 2015 Act have been brought into force by Commencement Orders made before the date of this Order:

<i>Y Ddarpariaeth</i>	<i>Y Dyddiad Cychwyn</i>	<i>Rhif O.S.</i>	<i>Provision</i>	<i>Date of Commencement</i>	<i>S.I. No</i>
Adran 2	1 Ebrill 2016	O.S. 2015/1987 (Cy. 297) (C. 123)	Section 2	1 April 2016	S.I. 2015/1987 (W. 297) (C. 123)
Adran 3 (i'r graddau y mae'n rhoi adrannau newydd 60, 60A a 60B yn lle adran 60 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004)	4 Ionawr 2016	O.S. 2015/1987 (Cy. 297) (C. 123)	Section 3 (so far as it substitutes section 60 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 with new sections 60, 60A and 60B)	4 January 2016	S.I. 2015/1987 (W. 297) (C. 123)
Adran 4 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Hydref 2015	O.S. 2015/1736 (Cy. 237) (C. 106)	Section 4 (so far as not already in force)	5 October 2015	S.I. 2015/1736 (W. 237) (C. 106)
Adrannau 11 i 14 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym)	4 Ionawr 2016	O.S. 2015/1987 (Cy. 297) (C. 123)	Sections 11 to 14 (so far as not already in force)	4 January 2016	S.I. 2015/1987 (W. 297) (C. 123)
Adran 15(1) a (2) (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	16 Mawrth 2016	O.S. 2015/1987 (Cy. 297) (C. 123)	Section 15(1) and (2) (so far as not already in force)	16 March 2016	S.I. 2015/1987 (W. 297) (C. 123)
Adran 15(3)	1 Ebrill 2016	O.S. 2015/1987 (Cy. 297) (C. 123)	Section 15(3)	1 April 2016	S.I. 2015/1987 (W. 297) (C. 123)
Adrannau 17 i 22 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym)	1 Mawrth 2016	O.S. 2016/52 (Cy. 22) (C. 4)	Sections 17 to 22 (so far as not already in force)	1 March 2016	S.I. 2016/52 (W. 22) (C. 4)

Adrannau 24 i 27 (i'r graddau y maent yn ymwneud â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol a chydysyniadau eilaidd)	1 Mawrth 2016	O.S. 2016/52 (Cy. 22) (C. 4)	Sections 24 to 27 (so far as they relate to developments of national significance and secondary consents)	1 March 2016	S.I. 2016/52 (W. 22) (C. 4)
Adrannau 28 i 30 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym)	16 Mawrth 2016	O.S. 2016/52 (Cy. 22) (C. 4)	Sections 28 to 30 (so far as not already in force)	16 March 2016	S.I. 2016/52 (W. 22) (C. 4)
Adran 31 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	4 Ionawr 2016	O.S. 2015/1987 (Cy. 297) (C. 123)	Section 31 (so far as not already in force)	4 January 2016	S.I. 2015/1987 (W. 297) (C. 123)
Adran 32 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	16 Mawrth 2016	O.S. 2016/52 (Cy. 22) (C. 4)	Section 32 (so far as not already in force)	16 March 2016	S.I. 2016/52 (W. 22) (C. 4)
Adrannau 33 a 34 (i'r graddau y maent yn ymwneud â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol a chydysyniadau eilaidd)	1 Mawrth 2016	O.S. 2016/52 (Cy. 22) (C. 4)	Sections 33 and 34 (so far as they relate to developments of national significance and secondary consents)	1 March 2016	S.I. 2016/52 (W. 22) (C. 4)
Adrannau 33 i 38 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym)	16 Mawrth 2016	O.S. 2016/52 (Cy. 22) (C. 4)	Sections 33 to 38 (so far as not already in force)	16 March 2016	S.I. 2016/52 (W. 22) (C. 4)
Adran 39 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Mai 2017	O.S. 2017/546 (Cy. 123) (C. 49)	Section 39 (so far as not already in force)	5 May 2017	S.I. 2017/546 (W. 123) (C. 49)
Adrannau 40 i 42 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym)	16 Mawrth 2016	O.S. 2015/1987 (Cy. 297) (C. 123)	Sections 40 to 42 (so far as not already in force)	16 March 2016	S.I. 2015/1987 (W. 297) (C. 123)
Adrannau 43 i 46 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym)	16 Mawrth 2016	O.S. 2016/52 (Cy. 22) (C. 4)	Sections 43 to 46 (so far as not already in force)	16 March 2016	S.I. 2016/52 (W. 22) (C. 4)

Adrannau 47 a 48 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym)	5 Mai 2017	O.S. 2017/546 (Cy. 123) (C. 49)	Sections 47 and 48 (so far as not already in force)	5 May 2017	S.I. 2017/546 (W. 123) (C. 49)
Adran 49 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	1 Mawrth 2016	O.S. 2016/52 (Cy. 22) (C. 4)	Section 49 (so far as not already in force)	1 March 2016	S.I. 2016/52 (W. 22) (C. 4)
Adran 50 (i'r graddau y mae'n ymwneud â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol a chydysniadau eilaidd)	1 Mawrth 2016	O.S. 2016/52 (Cy. 22) (C. 4)	Section 50 (so far as it relates to developments of national significance and secondary consents)	1 March 2016	S.I. 2016/52 (W. 22) (C. 4)
Adran 50 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Mai 2017	O.S. 2017/546 (Cy. 123) (C. 49)	Section 50 (so far as not already in force)	5 May 2017	S.I. 2017/546 (W. 123) (C. 49)
Adran 51 (i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau 1 i 14; 16(1); 18 i 20; 21(1); 22 i 24; 25(1) a (2)(a) a (b); a 26 o Atodlen 5)	1 Mawrth 2016	O.S. 2016/52 (Cy. 22) (C. 4)	Section 51 (so far as it relates to paragraphs 1 to 14; 16(1); 18 to 20; 21(1); 22 to 24; 25(1) and (2)(a) and (b); and 26 of Schedule 5)	1 March 2016	S.I. 2016/52 (W. 22) (C. 4)
Adran 51 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Mai 2017	O.S. 2017/546 (Cy. 123) (C. 49)	Section 51 (so far as not already in force)	5 May 2017	S.I. 2017/546 (W. 123) (C. 49)
Adran 54 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	10 Ebrill 2017	O.S. 2017/546 (Cy. 123) (C. 49)	Section 54 (so far as not already in force)	10 April 2017	S.I. 2017/546 (W. 123) (C. 49)
Rhan 1 o Atodlen 1 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Hydref 2015	O.S. 2015/1736 (Cy. 237) (C. 106)	Part 1 of Schedule 1 (so far as not already in force)	5 October 2015	S.I. 2015/1736 (W. 237) (C. 106)

Atodlen 3 (i'r graddau y mae'n ymwneud â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol a chydsyniadau eilaidd)	1 Mawrth 2016	O.S. 2016/52 (Cy. 22) (C. 4)	Schedule 3 (so far as it relates to developments of national significance and secondary consents)	1 March 2016	S.I. 2016/52 (W. 22) (C. 4)
Atodlen 4 (i'r graddau y mae'n ymwneud â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol a chydsyniadau eilaidd)	1 Mawrth 2016	O.S. 2016/52 (Cy. 22) (C. 4)	Schedule 4 (so far as it relates to developments of national significance and secondary consents)	1 March 2016	S.I. 2016/52 (W. 22) (C. 4)
Atodlen 5: paragraffau 1 i 14; paragraff 16(1) i'r graddau y mae'n ymwneud ag is-baragraff (2), ac is-baragraff (2); paragraff 18 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 5(4) o Atodlen 8 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; paragraff 19 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 20, a pharagraff 21(1), (2)(a) a (b); paragraff 20; paragraff 21(1) i'r graddau y mae'n ymwneud ag is-baragraff (2)(a) a (b); paragraff 22; paragraff 23 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau 24, 25(1), 25(2)(a) a (b), a 26; paragraff 24; paragraff 25(1), (2)(a) a (b); a pharagraff 26.	1 Mawrth 2016	O.S. 2016/52 (Cy. 22) (C. 4)	Schedule 5: paragraphs 1 to 14; paragraph 16(1) so far as it relates to sub-paragraph (2), and sub-paragraph (2); paragraph 18 so far as it relates to paragraph 5(4) of Schedule 8 to the Town and Country Planning Act 1990; paragraph 19 so far as it relates to paragraph 20, and paragraph 21(1), (2)(a) and (b); paragraph 20; paragraph 21(1) so far as it relates to sub-paragraph (2)(a) and (b); paragraph 22; paragraph 23 so far as it relates to paragraphs 24, 25(1), 25(2)(a) and (b), and 26; paragraph 24; paragraph 25(1), (2)(a) and (b); and paragraph 26.	1 March 2016	S.I. 2016/52 (W. 22) (C. 4)

Atodlen 5: paragraffau 15 i 19; 21; 22; 23; 25; a 27 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym)	5 Mai 2017	O.S. 2017/546 (Cy. 123) (C. 49)	Schedule 5: paragraphs 15 to 19; 21; 23; 25; and 27 (so far as not already in force)	5 May 2017	S.I. 2017/546 (W. 123) (C. 49)
---	------------	---------------------------------------	---	------------	-----------------------------------

Gweler adran 58(1) o Ddeddf 2015 ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar y diwrnod pan gafodd Deddf 2015 y Cydsyniad Brenhinol ac adran 58(2) ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym 2 fis ar ôl i Ddeddf 2015 gael y Cydsyniad Brenhinol. Cafodd Deddf 2015 y Cydsyniad Brenhinol ar 6 Gorffennaf 2015.

See section 58(1) of the 2015 Act for provisions which came into force on the day the 2015 Act received Royal Assent and section 58(2) for the provisions which came into force 2 months after the 2015 Act received Royal Assent. The 2015 Act received Royal Assent on 6 July 2015.

2018 Rhif 1022 (Cy. 213) (C. 78)

**CYNLLUNIO GWLAD A
THREF, CYMRU**

**Gorchymyn Deddf Cynllunio
(Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 5 a
Darpariaethau Trosiannol) 2018**

Gwnaed

19 Medi 2018

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 58 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015(1).

Enwi

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol) 2018.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 22 Hydref 2018

2. Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddod i rym yw 22 Hydref 2018—

- (a) adrannau 52 a 53 (i'r graddau nad yw'r adrannau hynny eisoes mewn grym); a
- (b) Atodlen 6.

Darpariaethau Trosiannol

3.—(1) Nid yw adran 15C o Ddeddf Tiroedd Comin 2006(2) (fel y'i diwygir gan adran 53 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, ac Atodlen 6 iddi) yn gymwys i gais o dan adran 15(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006(3) i gofrestru tir yng Nghymru yn faes tref a phentref, a anfonir cyn y diwrnod a bennir gan erthygl 2.

(1) 2015 decc 4.
(2) 2006 p. 26; mewnosodwyd adran 15C gan adran 16(1) o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013 (p. 27) ("Deddf 2013").
(3) Diwygiwyd adran 15 gan adran 14 o Ddeddf 2013.

2018 No. 1022 (W. 213) (C. 78)

**TOWN AND COUNTRY
PLANNING, WALES**

**The Planning (Wales) Act 2015
(Commencement No. 5 and
Transitional Provisions) Order 2018**

Made

19 September 2018

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the power conferred on them by section 58 of the Planning (Wales) Act 2015(1).

Title

1. The title of this Order is the Planning (Wales) Act 2015 (Commencement No. 5 and Transitional Provisions) Order 2018.

Provisions coming into force on 22 October 2018

2. The appointed day for the coming into force of the following provisions of the Planning (Wales) Act 2015 is 22 October 2018—

- (a) sections 52 and 53 (so far as those sections are not already in force); and
- (b) Schedule 6.

Transitional provisions

3.—(1) Section 15C of the Commons Act 2006(2) (as amended by section 53 of, and Schedule 6 to, the Planning (Wales) Act 2015) does not apply to an application under section 15(1) of the Commons Act 2006(3) to register land in Wales as a town and village green, which is sent before the day appointed by article 2.

(1) 2015 anaw 4.
(2) 2006 c. 26; section 15C was inserted by section 16(1) of the Growth and Infrastructure Act 2013 (c. 27) ("the 2013 Act").
(3) Section 15 was amended by section 14 of the 2013 Act.

(2) At ddibenion adran 15C o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 (fel y'i diwygir gan adran 53 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, ac Atodlen 6 iddi) nid oes wahaniaeth a fu digwyddiad a bennir yng ngholofn gyntaf Atodlen 1B i Ddeddf Tiroedd Comin 2006 cyn y diwrnod a bennir gan erthygl 2, ar y diwrnod hwnnw, neu ar ôl y diwrnod hwnnw.

(2) For the purposes of section 15C of the Commons Act 2006 (as amended by section 53 of, and Schedule 6 to, the Planning (Wales) Act 2015) it does not matter whether an event specified in the first column of Schedule 1B to the Commons Act 2006 occurred before, on or after the day appointed by article 2.

Lesley Griffiths

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
19 Medi 2018

Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
19 September 2018

©©Hawlfraint y Goron 2018

© Crown copyright 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

W201809211006 09/2018

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2018/1022>

ISBN 978-0-348-20276-2



9 780348 202762